# SL(6)092 – Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) (Dirymu) 2021

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau <https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=38410> hyn yn dirymu Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) 2021 ("Rheoliadau 2021").

Mae Rheoliadau 2021 yn pennu'r rhagdybiaethau sydd i'w gwneud wrth gymhwyso darpariaethau is-baragraffau (1) i (7) o baragraff 2 o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 mewn cysylltiad â gwerth ardrethol eiddo annomestig. Effaith Rheoliadau 2021 yw nad yw trethdalwyr eiddo annomestig yng Nghymru yr effeithir arnynt gan:

1. ymateb Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU i'r coronafeirws;

2. unrhyw ofyniad, cyngor neu ganllawiau mewn ymateb i'r coronafeirws gan unrhyw awdurdod cyhoeddus yn y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Llywodraeth y DU neu lywodraeth y tu allan i'r DU, neu

3. fesurau a gymerir i sicrhau cydymffurfedd â deddfwriaeth iechyd a diogelwch,

yn gallu dyfynnu'r materion hynny fel rhai sy'n achosi newid perthnasol mewn amgylchiadau at ddibenion apelio o ran gwerth ardrethol eiddo annomestig ar restrau ardrethu 2017.

Bydd y darpariaethau yn Rheoliadau 2021 yn cael eu disodli gan ddarpariaethau ar gyfer Cymru sydd wedi'u cynnwys yn y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwyso Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd) ("y Bil"). Bydd Rheoliadau 2021 yn cael eu dirymu ar y diwrnod y bydd y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn y posibilrwydd y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol, a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 25 Tachwedd 2021. Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr:

> *"Daw'r offeryn statudol hwn i rym… unwaith y rhoddir y Cydsyniad Brenhinol i'r Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwyso Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd) (y Bil) ac mae risg y bydd hynny'n digwydd o fewn 21 diwrnod i osod yr offeryn statudol hwn. Y rhesymeg yw rhoi eglurder o ran y gyfraith gan y byddai darpariaethau yn y Bil yn disodli Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) 2021 (y Rheoliadau presennol) a ddaeth i rym ar 1 Tachwedd."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**30 Tachwedd 2021**